# Bil Bwyd (Cymru) Drafft
# Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Hydref 2022

## 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymateb i'r ymgynghoriad drafft ar Fil Bwyd (Cymru) a gynhaliwyd rhwng 18 Gorffennaf a 16 Medi 2022.

Cafwyd ymatebion gan 49 o sefydliadau ac unigolion. Mae'r rhestr o ymatebwyr i'w gweld yn Atodiad 1.

Roedd rhai cwestiynau'r ymgynghoriad yn addas ar gyfer ateb ie/na. Mae tabl yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau hyn i'w weld yn Atodiad 2.

Ni fwriedir i'r ddogfen hon fod yn gofnod hollgynhwysfawr o bob sylw a gafwyd. Mae'n crynhoi'r materion allweddol a godwyd sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar eiriad a bwriad y Bil drafft. Gellir gweld sylwadau llawn yr ymatebwyr yn eu dogfennau tystiolaeth a gyflwynwyd.

## 2. Crynodeb

Roedd cefnogaeth gref i brif nodweddion y Bil drafft.

Dywedodd ymatebwyr nad yw polisi presennol Llywodraeth Cymru ar fwyd yn ddigon cydgysylltiedig a'u bod i raddau helaeth yn cefnogi'r angen am un dull cyfannol trosfwaol ar gyfer y system fwyd gyfan yng Nghymru.

Er bod ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion yn y Bil drafft yn gyffredinol, cafwyd awgrymiadau mewn nifer o feysydd, gan gynnwys:

- dylid cryfhau'r nodau bwyd, yn enwedig o ran yr amgylchedd a newid hinsawdd;
- dylai fod mwy o ymgynghori a chydweithio â rhanddeiliaid a'r cyhoedd wrth ddatblygu'r targedau, y strategaeth fwyd genedlaethol, a chynlluniau bwyd lleol;

- gallai fod gan y Comisiwn Bwyd Cymru arfaethedig rôl gryfach o ran datblygu'r targedau a'r strategaeth fwyd genedlaethol; a
- dylai fod mwy o hyblygrwydd i ganiatáu gwaith adrodd ac adolygu mwy rheolaidd mewn perthynas â'r targedau, y strategaeth fwyd genedlaethol a chynlluniau bwyd lleol.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad** ..... 1

**2. Crynodeb** ..... 1

**3. Cyffredinol** ..... 6

1. A ydych yn cytuno â'r egwyddorion cyffredinol y mae'r Bil yn ceisio eu cyflawni? ..... 6

2. A ydych yn credu bod angen y ddeddfwriaeth hon? A allwch roi rhesymau dros eich ateb? ..... 11

**4. Nodau bwyd** ..... 14

3. Rhowch eich barn ar gynnwys y Nodau Bwyd yn y Bil fel ffordd o osod sylfaen ar gyfer yr amcanion polisi. ..... 14

4. A ydych yn cytuno â chynnwys nod bwyd sylfaenol wedi'i ategu gan nodau bwyd eilaidd? ..... 16

5. A oes meysydd ychwanegol / gwahanol y dylid eu cynnwys yn y Nodau Bwyd yn eich barn chi? ..... 19

6. A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar y Nodau Bwyd, gan gynnwys goblygiadau'r cynigion o ran adnoddau a sut y gellid lleihau effaith y goblygiadau hynny? ..... 22

**5. Targedau** ..... 23

7. Rhowch eich barn ar gynnwys targedau yn y Bil fel modd o fesur sut mae'r Nodau Bwyd yn cael eu datblygu. ..... 23

8. A ydych yn cytuno â'r broses ar gyfer gosod y targedau? ..... 27

9. A ydych yn credu bod y mecanweithiau adrodd a nodir yn y Bil drafft yn sicrhau digon o atebolrwydd a digon o gyfle i graffu? ..... 29

10. A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar y targedau, gan gynnwys goblygiadau'r cynigion o ran adnoddau a sut y gellid lleihau effaith y goblygiadau hynny? ..... 31

**6. Comisiwn Bwyd Cymru** ..... 32

11. Beth yw eich barn ar yr angen am Gomisiwn Bwyd i Gymru? ..... 32

12. A ydych yn cytuno â nodau a swyddogaethau Comisiwn Bwyd Cymru? Os na, pa newidiadau y byddech chi'n eu hawgrymu? ..... 34

13. A ydych yn cytuno â maint aelodaeth y Comisiwn Bwyd a'r broses ar gyfer penodi ei aelodau? 35

14. Beth yw eich barn am y cynnig mai am gyfnod o hyd at bum mlynedd ar y mwyaf y gall y cadeirydd a'r aelodau wasanaethu ac mai dim ond unwaith y gellir ailbenodi unigolyn yn gadeirydd neu'n aelod? Ydych chi'n credu bod hyn yn briodol? 37

15. A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar y Comisiwn Bwyd, gan gynnwys goblygiadau'r cynigion o ran adnoddau a sut y gellid lleihau effaith y goblygiadau hynny? 39

**7. Strategaeth Fwyd Genedlaethol 40**

16. A ydych yn cytuno bod angen strategaeth fwyd genedlaethol? 40

17. A ydych yn credu bod strategaethau presennol Llywodraeth Cymru o ran bwyd yn ddigon cydgysylltiedig / cyson? 42

18. A yw'r Bil drafft yn gwneud digon i sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael cyngor ac yn ymgynghori ar y strategaeth cyn iddi gael ei gwneud. Os na, pa fecanweithiau ychwanegol y byddech yn eu rhoi ar waith? 44

19. A ydych yn credu bod darpariaethau'r Bil drafft sy'n ymwneud ag adrodd ar y strategaeth fwyd genedlaethol yn ddigonol? Os na, pa newidiadau yr hoffech eu gweld? 46

20. A ydych yn credu bod darpariaethau'r Bil drafft sy'n ymwneud ag adolygu’r strategaeth fwyd genedlaethol yn ddigonol? Os na, pa newidiadau yr hoffech eu gweld? 48

21. A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar y Strategaeth Fwyd Genedlaethol, gan gynnwys goblygiadau'r cynigion o ran adnoddau a sut y gellid lleihau effaith y goblygiadau hynny? 50

**8. Cynlluniau Bwyd Lleol 51**

22. A ydych yn cytuno bod angen cynlluniau bwyd lleol? 51

23. A yw'r Bil drafft yn gwneud digon i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ymgynghori ar eu cynlluniau bwyd lleol cyn iddynt gael eu gwneud? Os na, pa fecanweithiau ychwanegol y byddech yn eu rhoi ar waith? 53

24. A ydych yn credu bod darpariaethau'r Bil drafft sy'n ymwneud ag adrodd ar y cynlluniau bwyd lleol yn ddigonol? Os na, pa newidiadau yr hoffech eu gweld? 55

25. A ydych yn credu bod darpariaethau'r Bil drafft sy'n ymwneud ag adolygu'r cynlluniau bwyd lleol yn ddigonol? Os na, pa newidiadau yr hoffech eu gweld? ..... 57

26. A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar y cynlluniau bwyd lleol, gan gynnwys goblygiadau'r cynigion o ran adnoddau a sut y gellid lleihau effaith y goblygiadau hynny? ..... 59

**9. Arall ..... 60**

27. A ydych yn cytuno â'r rhestr o bersonau y diffinnir eu bod yn 'gorff cyhoeddus' at ddibenion y Bil hwn? ..... 60

28. A oes gennych unrhyw farn ar y broses a nodir yn y Bil ar gyfer gwneud rheoliadau? ..... 62

29. A oes gennych unrhyw farn ar ddyddiad cychwyn arfaethedig y Ddeddf? ..... 63


**10. Sylwadau pellach ..... 64**

**11. Atodiad 1: Rhestr o'r ymatebwyr ..... 66**

**12. Atodiad 2: Tabl crynodeb o'r ymatebion ..... 68**

# 3. Cyffredinol

## 1. A ydych yn cytuno â'r egwyddorion cyffredinol y mae'r Bil yn ceisio eu cyflawni?




| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ie | 35 | 72 |
| Na | 9 | 18 |
| Dim ateb / aneglur | 5 | 10 |

Heb gynnwys 'dim ateb/aneglur':

| | % |
|---|---|
| Ie | 80 |
| Na | 20 |

Roedd cefnogaeth gref (72 y cant) i egwyddorion cyffredinol y Bil.

Dywedodd **Dr Robert Bowen o Ysgol Busnes Caerdydd, Prifysgol Caerdydd**:

> *... it is important to have a cohesive approach towards the food and drink industry in Wales, as this encompasses many different aspects of the Welsh economy and Welsh society. The industry is especially important for rural communities, particularly largely Welsh-speaking communities. The aims of creating greater cohesion, and developing greater scrutiny are important as the industry faces many challenges, from the impact of the Covid-19 pandemic, Brexit issues relating to supply chain issues, food standards and financial support to the industry, the impact of the War in Ukraine on the supply chain, the cost of living crisis and the impacts this has on individuals and businesses within the industry, and the climate crisis, which requires an urgent consideration of the industry can undertake sustainable practices. The key objective of achieving affordable, healthy, and economically and environmentally sustainable food is vital for Welsh society as a*

*whole, in ensuring that everyone in Wales has the opportunity to access affordable and healthy food, with localised supply chains supporting communities to access food in this way.*

Roedd ymatebwyr o'r sector iechyd yn cefnogi egwyddorion y Bil drafft gan ddweud y dylai ystyriaethau iechyd fod yn ganolog iddo. Dywedodd Cymdeithas Ddeieteg Prydain (BDA):

*We welcome the Bill to support a more joined-up approach to food within Wales working collaboratively across silos and sectors. While it is important to have multi sector involvement, health should remain an underlying ethos and should be embedded throughout the Bill to meet the food goals stated.*

*A radical, long-term approach is needed to overhaul the Welsh and UK food system with a focus towards sustainable, home grown, produced and distributed food. The Bill should encompass the key aim to balance the population's food supply to reduce food industry production and supply of high fat, sugar and salt (HFSS) foods. This is a paramount action to reduce the burden that diet-related ill health has on people's lives, economic stability and life expectancy. Through these actions we reduce impact of these illness on the NHS and health and social care services.*

Dywedodd Tîm Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan Gwent:

*Yes. We agree with the principle of the need to establish a more sustainable food system that delivers on health, environment and economic objectives.*

*Food system challenges are complex and cross cutting by nature. Recent research in England found that 16 separate government departments had responsibility for an aspect of food policy. The establishment of a clear framework for action will support integrated action at local, regional and national levels.*

*'Brexit', Climate Change and Covid-19 have all presented challenges for our health and wellbeing. This triple challenge has impacted negatively on food security for a wide range of population groups in Wales. This is now heightening with the cost of living crisis and the drought to create a strong case for*

> *the need for a long term food strategy to build a sustainable food system for Wales.*

Fodd bynnag, dywedodd rhai ymatebwyr o'r sector amgylcheddol na fyddent yn rhoi cefnogaeth lawn oni bai bod y Bil drafft yn cael ei gryfhau mewn perthynas ag adfer natur a lliniaru a mynd i'r afael â newid hinsawdd. Dywedodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru:

> *We would support the Bill if the proposed legislation would do more to ensure that the environment is both protected and restored through the production of sustainable food. At the moment we have serious concerns about the Bill in this area. Reducing harm to the environment as stated in the Bill is not sufficient given that it is now recognised that we are living through a Climate and Biodiversity Crisis, The proposed Food Bill needs to ensure, as a key overarching principle, that food production ensures the climate and nature crises are addressed. The Food Bill needs to be clear that the way to address these critical issues is through the promotion and adoption of agroecological practices.*

Roedd RSPB Cymru a Chyngor Sir Fynwy yn cefnogi'r geiriad yn amcanion Strategaeth Fwyd Llywodraeth y DU:

> *...a sustainable, nature positive, affordable food system that provides choice and access to high quality products that support healthier and home-grown diets for all.*

Dywedodd Cynghrair Gweithwyr Tir Cymru (LAC) y dylai gwella llesiant economaidd-gymdeithasol Cymru fod yn ganolog:

> *Many workers in the food and agriculture sector are on poverty wages and manyself-employed farmers and small food business owners are unable to pay themselves minimum wage. Simply increasing profits of some large farms, food manufacturers or restaurant chains will not address this. The principle should beenhancing the socio-economic well-being of those across the food and farming sector.*

Dywedodd Cynghrair Polisi Bwyd Cymru a Chynghrair Gweithwyr Tir Cymru y dylai fod cysylltiadau clir â deddfwriaeth a chynlluniau presennol yn y Bil drafft. Rhoddodd Cynghrair Polisi Bwyd Cymru enghreifftiau o wrthdaro ym meysydd polisi ar hyn o bryd:

> *The consultation document references the Social Values and Procurement Bill, The Agriculture Bill and the Community Food Strategy. However, it has omitted reference to how it would interface with the Environment (Wales) Act, the Public Health (Wales) Act, national and local planning policies, and to provide sufficient detail on the relationship between the Food Bill and the Wellbeing of Future Generations Act. A key reason why this Bill is important is because to date policy incoherence has often led to mixed messages, missed opportunities and contradictory approaches. For Example the strategic direction of growth and industrialisation of the food manufacturing sector versus a clear policy direction of 'sustainable agriculture'; Minimum alcohol pricing as part of the Public Health (Wales) Act vs Welsh Government's Drink Strategy; planning policies that allow farms to pollute water courses whilst assets key to building food security (whether land or infrastructure) held in public ownership are lost to other sectors; and missed opportunities to connect Welsh Government's Food and Drink Retail Plan with opportunities within the Healthy Weight Healthy Wales (obesity strategy) - in particular around ambitions for a Healthy Food Environment.*

Argymhellodd Cynghrair Polisi Bwyd Cymru y dylid cynnwys 'cymal pwrpas' i sicrhau bod y Bil drafft yn ystyried yr agweddau niferus ar y system fwyd, er enghraifft:


> *The Food (Wales) Bill is designed to create a new system of governance that drives a food system approach to achieving a healthier, sustainable and just food system for current and future generations in Wales by strengthening food sovereignty, restoring and maintaining biodiversity, mitigating and adapting to climate change and improving Wales's environmental, social and economic well-being. A National Food Commission, led by a Commissioner is tasked to oversee and deliver a co-produced National Food System strategy that aligns with agroecological principles and includes an action plan for achieving set targets. The Food Commission will collaborate with Ministers to ensure that new strategies and policies align and are integrated with established policies and strategies to provide that every person has access, in a dignified and culturally appropriate manner, to nutritious,*

> *sustainable and safe food at all times (prevention). In doing so, the Food (Wales) Bill integrates the five ways of working mandated by the WFGA.*

Fodd bynnag dywedodd David Smith, cyn aelod o Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (2000-2006), yr Asiantaeth Safonau Bwyd, fod y Bil drafft yn ‘llawer rhy uchelgeisiol’, gan nodi:

> *I am lukewarm about the Bill. It is very much a mixed bag and crucially uncosted. Further, I have difficulty in squaring it's interventionist nature (ref. public sector capacity and cost implications), in the context of the centralising thrust of UK Internal Market/ free market legislation and the continuing serious reduction in public funds available from the UK Treasury. We need to focus upon deliverable public health priorities at this time, and I seriously doubt Welsh Government has the capacity to effectively undertake even some of the actions proposed in this Bill.*

## 2. A ydych yn credu bod angen y ddeddfwriaeth hon? A allwch roi rhesymau dros eich ateb?




| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ie | 37 | 76 |
| Na | 5 | 10 |
| Dim ateb / aneglur | 7 | 14 |

Heb gynnwys 'dim ateb/aneglur':

| | % |
|---|---|
| Ie | 88 |
| Na | 12 |

Mae'r mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr (76 y cant) o'r farn bod angen y Bil.

Dywedodd **Cyngor Sir Fynwy**:

> *We agree that there is a definite need for this legislation. Food systems issues are complex and cross-cutting: responsibility for aspects of food policy is split between numerous government departments, and effective action requires cooperation between public, private, and third sectors. A Food Bill would provide clarity of purpose and set the framework for integrated action to help create a food system that delivers for place, people, and planet.*

Dywedodd **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**:

> *Oes, mae hwn yn ddarn hanfodol o ddeddfwriaeth ac yn ogystal â helpu i sicrhau atebolrwydd, gyda mesurau priodol ar waith, bydd yn helpu i lunio a chynnal ffocws cenedlaethol ffurfiol ar gyfer yr angen parhaus i ddatblygu ein systemau bwyd a diogelu'r cyflenwad bwyd. Bydd y ddeddfwriaeth yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno Dull Gweithredu ar sail System Gyfan ar gyfer Pwysau Iach drwy gydnabod rôl partneriaid mewn polisi bwyd a sut y gall hyn effeithio ar iechyd a lles. Yn*

*aml, mae llawer o bartneriaid yn rhoi'r cyfrifoldeb am bwysau nad yw'n iach ar y GIG ac yn methu â chydnabod y rôl maen nhw'n ei chwarae yn y system sy'n achosi pwysau nad yw'n iach. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn cryfhau'r gydnabyddiaeth fod gan bob partner rôl i'w chwarae mewn polisi bwyd.*

Dywedodd y Gynghrair Cefn Gwlad:

*There is an absolute need for this legislation, particularly now when we are facing a food and energy crisis, as well as a Climate Change emergency. There needs to be a coherent approach to the production, processing, consumption, and disposal of food. The time is now and this Bill will be of significant importance.*

*The appalling developments in Ukraine have served as a sharp wake-up call for Wales, and the UK with regard to our sustainability when it comes to food and energy. The proposed framework has been developed at a timely moment however, the need for such a Bill was always there but not fully recognised.*

Roedd RSPB Cymru yn fwy pwyllog:

*To what extent new legislation is required depends on how much of the proposed framework Welsh Government can establish using existing legislation and commitments, including the introduction of its Community Food Strategy. Therefore, until there is clarity on how Government intends securing a sustainable food system for Wales it is difficult to comment on how much new legislation may be required. However, as current Government plans do not appear to include provision for independent oversight or the means of aligning a food policy across portfolios there appears to be the need for legislation to establish a National Food Strategy and an independent Commission to oversee its delivery.*

Fodd bynnag cwestiynodd Ffederasiwn Bwyd a Diod Cymru yr angen i ddeddfu i gyflawni amcanion y Bil drafft:

*We would urge caution to legislating. While we very much welcome the focus on the future of food and its supply chain, there must be flexibility in how we address challenges that will*

*face it in the future. We do not agree that this necessarily needs to be embedded in legislation but rather that industry continues to work closely with the Welsh Government to deliver the overarching objectives in Bill, similar to those in the Vision for Food and Drink.*

# 4. Nodau bwyd

## 3. Rhowch eich barn ar gynnwys y Nodau Bwyd yn y Bil fel ffordd o osod sylfaen ar gyfer yr amcanion polisi.

Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid cynnwys nodau bwyd yn y Bil drafft (gweler cwestiwn 4), ond roedd safbwyntiau gwahanol ar beth ddylai'r nodau fod a pha ffurf y dylent ei chael (gweler cwestiwn 5).

Dywedodd Tîm Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan Gwent:

> *We welcome the introduction of the food goals as these set a clear vision and direction and will ensure that action is taken across the whole healthy sustainable food system agenda. The goals will provide a clear framework for action and will support integration of food policy objectives into policy across Government at all levels in line with the 'health in all policies' approach.*
>
> *A framework of food goals would also be consistent with and complementary to Wales' well-being goals, which public bodies are working towards under the Well-being of Future Generations Act. This framework would provide the leadership vision for public bodies to deliver.*

Yr un modd, dywedodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog:

> *The BBNPA supports the inclusion of Primary and Secondary Food Goals because these underline the importance of making this sector environmentally, ecologically, economically and socially resilient and sustainable. They also provide the regulatory framework for the Food Commission Wales to track progress and make recommendations at a Welsh Government and Local Authority level. We agree that the Secondary Food Goals should function similarly to the WFG Act five ways of working.*

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn nodi:

> *efallai nad yw'n bosibl i gyflawni ar yr un pryd yr holl elfennau o amcanion bwyd cynradd (darparu bwyd 'fforddiadwy, iachus, cynaliadwy yn economaidd ac amgylcheddol i bobl yng*

> *Nghymru). Os yw costau bwyd yn cynyddu, er enghraifft o ganlyniad o gael bwyd lleol ar blatiau ysgol, felly bydd yr un peth yn digwydd i gostau i Llywodraeth Cymru (cost uned i brydau dan Ddarpariaeth Gynhwysol o Brydau Ysgol am Ddim), cynghorau (yn cyflenwi costau Prydau Ysgol am Ddim rheolaidd i brydau drwy'r Grant Cynnal Refeniw) a rhieni/disgyblion (disgyblion sy'n talu mewn ysgolion uwchradd).*
>
> *Mewn ysgolion yn gyffredinol mae bwydydd iachach yn llai poblogaidd ac yn cyfrannu'n fwy at wastraff traul na bwydydd 'sy'n gyfeillgar i blant' (e.e. bysedd pysgod eog yn erbyn bysedd pysgod penfras; pys yn erbyn ffa pôb; tatws wedi'u berwi yn erbyn sglodion). O fewn ysgolion, mae'n afrealistig disgwyl cyflawni amcan bwyd eilaidd o 'leihau gwastraff bwyd gan fasnachwyr a phrynwyr bwyd', wrth geisio parhau i gynyddu iechyd bwyd mewn ysgolion, sydd yn debygol o gael ymyrraeth barhaus o'r amcan bwyd eilaidd arall sy'n berthnasol i 'leihau gordewdra'.*


Roedd rhai ymatebwyr yn ofni y gallai rhai nodau gael mwy o flaenoriaeth nag eraill. Er enghraifft, dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe:

> *Our concern is that the health of our population and planet must not be perceived or treated as a secondary consideration to others aspects of the Goals. We are concerned that economic arguments may receive undue weighting and used to justify the status quo and or slow the pace of change.*

Nododd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol:

> *… Wales does not have full control over all policy that influences the Primary Food Goals. These policy areas include UK trade policy, UK frameworks (for example the Internal Market Act and Organic Production Common Framework) and UK Government funding for Wales' agricultural support.*

## 4. A ydych yn cytuno â chynnwys nod bwyd sylfaenol wedi'i ategu gan nodau bwyd eilaidd?




| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ie | 29 | 59 |
| Na | 4 | 8 |
| Dim ateb / aneglur | 16 | 33 |

Heb gynnwys 'dim ateb/aneglur':

| | % |
|---|---|
| Ie | 88 |
| Na | 12 |

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (59 y cant) yn cytuno â chynnwys nod bwyd sylfaenol wedi'i ategu gan nodau bwyd eilaidd. Ni wnaeth traean (33 y cant) o'r ymatebwyr fynegi barn glir. O'r rhai a wnaeth fynegi barn glir, roedd 88 y cant yn cefnogi'r cynigion yn y Bil drafft.

Roedd nifer o ymatebwyr, yn bennaf o'r sector amgylcheddol, am i'r nodau gael eu cryfhau i gynnwys adfer natur, a lliniaru a mynd i'r afael â newid hinsawdd. Galwodd llawer hefyd am i egwyddorion agroecolegol fod yn sail i brif nod y Bil. Er enghraifft, dywedodd WWF Cymru:

> *… the primary goal is weak in its definition, giving it would be the primary focus of the legislation. We urge the team to put more definition in at this higher level to avoid ambiguity – for example, we couldn't support more food production at the degradation of our environment and wellbeing. We would like the primary goal to be explicit on the need to restore nature and mitigate and tackle climate change in Wales and overseas, and the crucial role that the food system needs to play in enabling this, and we believe that agroecological principles should underpin the primary goal.*

Roedd Cynghrair Polisi Bwyd Cymru yn teimlo y dylai'r prif nod bennu'r fframwaith cyffredinol ac argymhellodd y dylid cynnwys 'cymal pwrpas':

> *FPAC are supportive of the idea of having a primary food goal, however we feel the goal is open to interpretation (an overarching goal of providing affordable, healthy, and economically and environmentally sustainable food for the people of Wales). It's FPAC's view that the Wales Food Bill's primary aim should be to provide a legislative framework that enables policy coherence across the food system guided by agroecological principles.*

Dywedodd ymatebwyr eraill o sectorau'r amgylchedd ac iechyd hefyd y dylai'r prif nod fod yn fwy cyffredinol. Er enghraifft, dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe:

> *The difference between the primary and secondary goals could be made clearer, as well as more detail on how they relate.*
>
> *The primary goal should state the need to consider a whole system approach to the food environment – recognising the inter-dependency of all aspects of the food system i.e. health, environment, economic. This would be in line with the WFGA – which this should underpin. What will be needed are secondary goals that: give appropriate weighting to the different dimensions; recognise that the responses to these will be in conflict; and where there is a clear ranking or bias in support of the health of our nation..*

Roedd safbwyntiau eraill yn cynnwys graddio'r nodau ac, i'r gwrthwyneb, gwneud pob nod yn gyfartal. Mae'r Grŵp Cynghori ar Nwyddau'r GIG (NHS CAG) yn pryderu bod nodau eilaidd yn cystadlu â'i gilydd, gyda phwynt tebyg yn cael ei wneud gan CLlLC (gweler yr ymateb i gwestiwn 3). Dywedodd y Grŵp Cynghori ar Nwyddau'r GIG:

> *The CAG would agree with the primary food goal, however would note that most of the secondary food goals trade off against one and other.*
>
> *Therefore, the CAG would recommend that the Bill explicitly prioritise and rank the secondary food goals. Academic guidance suggests that the prioritisation of these trade-offs*

> *should place environmental first, social issues second and economic issues third.*

Dywedodd y Gynghrair Cefn Gwlad:

> *Differentiating the Food Goals between being "Primary" and "Secondary" is a distraction and could cause the "Secondary" goals not to be taken as seriously and undermine the overarching goal.*
>
> *We recognise what is trying to be achieved but feel the terminology should be reviewed to ensure that the "Secondary" goals set out in the draft Schedule have an equal footing as the "Primary" goals.*

## 5. A oes meysydd ychwanegol / gwahanol y dylid eu cynnwys yn y Nodau Bwyd yn eich barn chi?

Cynigiodd Cynghrair Polisi Bwyd Cymru nodau amgen, gan gynnwys targedau, i'w rhoi ar wyneb y Bil. Roedd nifer o ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn yn eu tystiolaeth eu hunain. Mae nodau amgen y Gynghrair fel a ganlyn:

> *1. Food for all*
>
> *Wales becomes the first nation to eliminate the need for food banks. Everyone in Wales has access to the food they need in a dignified way, in order to live a healthy life.*
>
> *Target: Zero food banks in Wales by 2030*
>
> *2. Food for public health*
>
> *Increased consumption of vegetables, which are produced sustainably in Wales for Wales.*
>
> *Educational provision on food related issues in each key stage in all schools.*
>
> *Target: 75% of Eatwell's recommended vegetable consumption is produced sustainably in Wales by 2030*
>
> *Target: 100% of schools including food in Key stage 1-3 curriculum*
>
> *3. Net zero food system*
>
> *A net zero food system for Wales.*
>
> *Target: Net zero emissions from Wales' food system by 2035.*
>
> *4. Farming for nature and climate*
>
> *Increased amount of agroecological production.*
>
> *Measure the environmental footprint of food and set a target to reduce the environmental footprint of food production and consumption.*
>
> *Target: 100% agroecological production by 2035*
>
> *Target: 75% reduction in environmental footprint of food production and consumption at home and overseas by 2035.*

> *5. Sustainable food procurement*
>
> *Increased public procurement of food from organic or agroecological Welsh producers.*
>
> *Strategies for ensuring adequate supply and fit-for-purpose dynamic procurement tools should be addressed in the roadmap.*
>
> *Target: 30% of public procurement of food is from organic or agroecological Welsh producers by 2030*
>
> *6. Sustainable food sector jobs and livelihoods*
>
> *Those who earn their living within the food system receive, or are enabled to receive, at least the living wage or a fair return for their work. Work, whether on land or sea, is free from exploitative practices, and is varied, engaging and empowering. Achieving cannot be achieved by focussing solely on individual businesses or by simply mandating higher wages, but requires analysis of the market structure in the food system that leads to low wages in farming and the food sector.*
>
> *Target: 100% of food sector jobs paid the real living wage by 2030*

Awgrymodd rhai ymatebwyr fod 'sofraniaeth bwyd' yn gysyniad mwy priodol na 'diogelwch bwyd'. Dywedodd Cynhrair Polisi Bwyd Cymru:

> *We believe that the concept of food security does not distinguish where food comes from or how it is produced and distributed. Contrary to the concept of food security, how and where food is produced and consumed matters to the concept of food sovereignty. Food sovereignty emphasizes ecologically appropriate production, distribution and consumption, social-economic justice. and local food systems as ways to tackle hunger and poverty and guarantee sustainable food security for all peoples.*

Awgrymodd yr ymatebwyr ystod eang o faterion pellach y dylid eu crybwyll yn benodol yng ngeiriad y nodau bwyd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- cynyddu caffael cyhoeddus mewn cysylltiad â bwyd cynaliadwy o Gymru;

- darparu prydau ysgol maethlon am ddim;
- lleihau'r defnydd o fanciau bwyd;
- hyrwyddo cynaliadwyedd cymdeithasol (yn ogystal â chynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol);
- galluogi mynediad at fwyd sy'n ddiwylliannol briodol;
- cynnal a gwella safonau uchel o ran ansawdd bwyd;
- rheoleiddio labelu a hysbysebu bwyd;
- diogelu cynhyrchwyr yng Nghymru rhag disodli bwyd domestig â mewnforion rhatach sy’n cael eu cynhyrchu i safonau is;
- cynnal a gwella safonau uchel o ran ansawdd bwyd;
- creu cadwyni bwyd gwydn i wella diogelwch bwyd;
- cefnogi’r sector bwyd a diod i barhau’n gystadleuol;
- cefnogi ffermio fel dewis gyrfa o fewn y system addysg;
- sicrhau mynediad tecach at fwyd iach a maethlon;
- mwy o ffocws ar ddatblygu sgiliau bwyd i sicrhau dietau a llesiant gwell ac iachach; a
- chynnwys pob rhan o'r gadwyn gyflenwi o dan y nod gwastraff bwyd.

## 6. A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar y Nodau Bwyd, gan gynnwys goblygiadau'r cynigion o ran adnoddau a sut y gellid lleihau effaith y goblygiadau hynny?


Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr y dylid rhoi adnoddau digonol i gyrff cyhoeddus perthnasol i'w galluogi i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Bil ac i gyflawni'r nodau bwyd.

Tynnodd Tîm Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan Gwent sylw at y potensial ar gyfer cydweithio rhanbarthol:

> *Food system change is a complex area which regional and local public sector organisations will benefit from being resourced and supported to undertake.*
>
> *Some of the food goals may be best delivered on a scale greater than that of a single local authority, e.g. regional collaboration. Consideration could be given to local authorities working together on wider geographies to jointly tackle food goals. This would enable a more flexible use of expertise and resources and to align with existing partnerships. This collaborative approach would also be consistent with the Public Services Boards created under the Well-being of Future Generations Act.*

# 5. Targedau

### 7. Rhowch eich barn ar gynnwys targedau yn y Bil fel modd o fesur sut mae'r Nodau Bwyd yn cael eu datblygu.




| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ie | 25 | 51 |
| Na | 3 | 6 |
| Dim ateb / aneglur | 21 | 43 |

Heb gynnwys 'dim ateb/aneglur':

| | % |
|---|---|
| Ie | 89 |
| Na | 11 |

Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn cytuno y dylid cynnwys targedau fel ffordd o fesur cynnydd yn erbyn y nodau bwyd. Dim ond 6 y cant oedd yn anghytuno, gyda 43 y cant ddim yn mynegi barn glir. Roedd mwyafrif helaeth (89 y cant) o'r rhai a fynegodd farn glir yn cytuno y dylid cynnwys targedau.

Dywedodd **Tîm Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan Gwent**:

> *We support the introduction of targets and think that these are needed to give an indication of the scale of the ambition and the change that is required. Without targets, it would be difficult to measure progress.*
>
> *Food targets would be consistent with the architecture of national indicators and milestones in the Well-being of Future Generations Act, and there should be read-across. E.g. Progressing food targets would also contribute to several of Wales' well-being goals.*

Teimlai rhai ymatebwyr y dylid cynnwys targedau ar wyneb y Bil (gweler yr ymateb i gwestiwn 5 am nodau a thargedau amgen Cynghrair Polisi Bwyd Cymru). Dywedodd NFU Cymru:

> *Whilst it is commendable that the Welsh Government has set and achieved some ambitious targets around things such as growing the size of Wales' food and drink sector, these targets are not statutory targets.*
>
> *It is our view that it would be desirable to put targets in the Food (Wales) Bill on a statutory footing and oblige the Welsh Government to report to the Senedd on its performance against these targets. Mechanisms need to be established to ensure levels of domestic food production are assessed, maintained, and enhanced alongside climate, biodiversity and broader environmental objectives.*

Dywedodd Social Farms and Gardens:

> *We firmly believe targets should be clearly set out in this legislation. We are running out of time to act efficiently to protect what is left of our fragile eco-system. Setting high level targets and an absolute requirement to meet them is required. This is a once in a generation opportunity and if the legislation is too weak, we will achieve little from it.*

Pwysleisiodd RSPB Cymru yr angen i alinio targedau â deddfwriaeth ac ymrwymiadau presennol:

> *To be effective targets and objectives, including environmental, must either be set out in the Bill (rather than associated plans) to drive action and/or the Bill must be aligned with, and be an effective means of delivering the targets and objectives of other relevant legislation and commitments e.g., net zero. This includes contributing to the Well-being Goals, securing the sustainable management of natural resources (SMNR) and delivering the objectives of future legislation where the impact of the Welsh food systems is relevant e.g., the promised Environmental Protection (Wales) Bill on environmental principles, governance and nature recovery targets.*

Dywedodd **Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe** hefyd fod alinio yn bwysig, er mwyn lleihau dyblygu:

> *It would be important to consider how these align to existing policy and legislation and to minimise duplication, including the WFGA and Healthy Weight Healthy Wales. It would be useful to consider a broad range of quantitative and qualitative measures to inform these targets and to consider the evidence behind the targets and to what extent they will lead to the intended impacts.*

Gwnaeth **Cymdeithas Ddeieteg Prydain (BDA)** a **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** gwestiynu geiriad y Bil drafft yn y maes hwn gan ddweud y dylai targedau sicrhau cydbwysedd rhwng bod yn gyraeddadwy a bod yn uchelgeisiol. Yn ôl **Cymdeithas Ddeieteg Prydain**:

> *The statement 'Before making regulations which set or amend a target, the Welsh Ministers must be satisfied that the target, or amended target, can be met', implies that only achievable targets will be set. Whilst it is clearly not appropriate to set unachievable goals, goals should be aspirational and sufficient bold to allow advancement of the food agenda in Wales.*

Gwnaeth **CLlLC** bwynt cysylltiedig:

> *Mae'n gwneud synnwyr i gynnwys targedau i fesur cynnydd os yw'r targedau hyn yn wrthrychol, yn gyraeddadwy ac yn hyrwyddo Nod Bwyd Eilaidd. Gallai'r targedau fod angen o leiaf safon isafswm fel nad yw'n cyfyngu uchelgais - efallai gyda chymhelliant i'r rheiny sydd yn cyflawni perfformiad uwch.*

Roedd **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** yn teimlo y dylid gosod targedau ar lefel leol:

> *We agree with the inclusion of targets for measuring progress towards achieving Food Goals. However, we believe that these should be set by the local authorities, e.g., within a Local Development Plan context or Regional Food Strategy. This would enable targets to reflect local / regional feasibility and distinctiveness.*

Nododd Cyngor Sir Fynwy:

> *… Wales enjoys a varied geography and demography and that these local variations should be considered in the setting of targets.*


Rhybuddiodd Coed Cadw yn erbyn targedau ag un pwrpas:

> *We would be concerned if targets are used to try to drive single purpose actions to the detriment of other policy goals that do not have equivalent targets. An example is arguments for the afforestation of land purely for the purpose of meeting carbon sequestration targets as highlighted by FUW. Another example is the way river quality has been destroyed by the financial focus of the water industry.*
>
> *We suggest that government needs a balanced basket of targets, which could include food targets but also need to include biodiversity targets, emission reduction targets amongst many others. We note that the Future Generations Act aspires to do this and suggest that all statutory targets should fit within and help develop the over-arching framework provided by this Act.*

Roedd FDF Cymru gwrthwynebu'r angen am dargedau fel y'u nodir yn y Bil drafft gan nodi bod y diwydiant eisoes wedi ymrwymo i gyflawni nodau tebyg:

> *We do not agree that targets need to be included to work towards affordable, healthy and economically and environmentally sustainable food for people in Wales. The food and drink industry is committed to working with the Welsh Government on delivering their Vision for Food and Drink, where there are many similarities to the overall aims of this Bill. We believe time should be given to see how this work developed before pressing ahead with legislation. If targets are to be included, they must be developed in consultation with industry to ensure that they are realistic and not tied to political or arbitrary ambitions.*

## 8. A ydych yn cytuno â'r broses ar gyfer gosod y targedau?




| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ie | 15 | 31 |
| Na | 13 | 26 |
| Dim ateb / aneglur | 21 | 43 |

Heb gynnwys 'dim ateb/aneglur':

| | % |
|---|---|
| Ie | 54 |
| Na | 46 |

Ni wnaeth 43 y cant o’r ymatebwyr fynegi barn glir ar y cwestiwn hwn. O'r rhai a wnaeth fynegi barn glir, roedd y mwyafrif (54 y cant) yn cytuno â'r broses ar gyfer pennu’r targedau.

Dywedodd FareShare Cymru:

> *The process of seeking advice from the Welsh Food Commission and other independent parties with relevant expertise seems fine. However, it needs to be ensured that all relevant voices are heard and taken account of and this doesn’t suggest how that will happen.*

Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr hefyd yr angen am ymgynghoriad eang ar ddatblygu'r targedau. Er enghraifft, dywedodd Partneriaeth Bwyd y Fro:

> *… we would encourage Welsh Ministers to consult with public body representatives during the target setting process to ensure the target data gathering and monitoring is achievable and manageable at a local level.*

Dywedodd y Grŵp Cynghori ar Nwyddau'r GIG a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:

> *Dylid drafftio'r targedau hyn mewn ymgynghoriad â sefydliadau cyhoeddus, yn enwedig ym meysydd arlwyo, deieteg, caffael a chyllid.*

Dywedodd FDF Cymru:


> *If industry is required in legislation to reach targets, it is imperative that they are heavily involved in developing them with the Welsh Government.*

Amlygodd RSPCA bwysigrwydd cynnwys sefydliadau sydd ag arbenigedd penodol ym maes lles anifeiliaid.

Dywedodd rhai o'r rhai a oedd yn anghytuno â'r broses ar gyfer pennu'r targedau y dylai'r Comisiwn Bwyd arfaethedig arwain y gwaith o ddatblygu'r targedau yn hytrach na bod hyn yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru. Mae'r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru "geisio cyngor" gan y Comisiwn cyn gwneud rheoliadau i bennu'r targedau. Dywedodd Social Farms and Gardens, Maint Cymru a WWF Cymru:

> *The process for setting the targets should be led by the Food Commission in co-production with food system stakeholders. The commission should be tasked with recommending targets from the co-production process to the Ministers for approval.*

## 9. A ydych yn credu bod y mecanweithiau adrodd a nodir yn y Bil drafft yn sicrhau digon o atebolrwydd a digon o gyfle i graffu?




| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ie | 12 | 24 |
| Na | 13 | 27 |
| Dim ateb / aneglur | 24 | 49 |

Heb gynnwys 'dim ateb/aneglur':

| | % |
|---|---|
| Ie | 48 |
| Na | 52 |

Ni wnaeth bron i hanner yr ymatebwyr (49%) fynegi barn glir ar y cwestiwn hwn. O'r rhai a fynegodd farn glir, roedd mwyafrif cul o'r farn nad oedd y mecanweithiau adrodd a nodir yn y Bil drafft yn sicrhau digon o atebolrwydd a digon o gyfle i graffu.

Dywedodd NFU Cymru y dylai'r rheoliadau sy'n pennu'r targedau gael eu cynhyrchu'n gynt na'r hyn a nodir yn y Bil drafft. Maent hefyd yn galw am gyflwyno adroddiadau ar gynnydd yn erbyn y targedau i'r Senedd, ar ffurf Datganiad Gweinidogol a dadl, o leiaf unwaith y flwyddyn:

> *We consider the reporting requirement to be particularly important and relevant on account of the current volatility facing the agricultural sector, as well as the challenge presented by changes to agricultural support.*

Mae Social Farms and Gardens a RSPB Cymru yn credu y dylid cryfhau'r Bil drafft o ran diwygio'r targedau yn ôl yr angen. Argymhellodd RSPB Cymru hefyd y dylid alinio'r adroddiadau â gofynion adrodd sydd eisoes ar waith:

> *In addition to the reporting mechanisms set out in the draft Bill we recommend the duty for the Welsh Ministers to review the targets that they have set should so include a duty to implement changes where they are required to meet objectives and targets. We also recommend that reporting*

> *should be aligned with other relevant reporting across Wales e.g., the State of Natural Resources Report (SoNaRR), climate change and biodiversity reporting (including designated sites condition).*

Gofynnodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Maint Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyngor Abertawe a CLlLC ynghylch y canlyniadau i gyrff cyhoeddus pe baent yn methu â gweithredu neu gyrraedd y targedau. Dywedodd CLlLC:

> *Dylid disgwyl i gynghorau (a chyrff cyhoeddus eraill) egluro eu perfformiad a'u cefnogi i fynd i'r afael ag unrhyw fethiannau i fodloni targedau. Fodd bynnag, ni ddylai'r system gyflwyno mesurau cosbol neu feirniadol (er enghraifft, defnyddio cosbau ariannol neu gyhoeddi 'tablau cynghrair').*

Argymhellodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog y dylid mabwysiadu'r dull a ddefnyddir gan Bwyllgorau Newid Hinsawdd ac Ymaddasu'r DU:

> *We recommend emulating the target tracking and recommendation processes used by the UK Climate Change and Adaptation Committees, and the Risk Assessments they publish. These identify the targets in relevant sectors and track Government progress towards these, providing scope for recommendations and room for improvement by the relevant sectors.*

Rhybuddiodd FareShare Cymru rhag gorlwytho sefydliadau y tu allan i gwmpas y ddeddfwriaeth:


> *For example charities funded through local authorities or Welsh Government may be required to report and may already have large reporting requirements.*

## 10. A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar y targedau, gan gynnwys goblygiadau'r cynigion o ran adnoddau a sut y gellid lleihau effaith y goblygiadau hynny?

Dywedodd rhai ymatebwyr gan gynnwys y Gynghrair Cefn Gwlad, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyngor Abertawe a Chymdeithas Ddieteg Prydain fod pum mlynedd yn gyfnod rhy hir rhwng adolygiadau o'r targedau. Awgrymwyd amserlenni rhwng 12 mis a thair blynedd yn lle hynny.

# 6. Comisiwn Bwyd Cymru

## 11. Beth yw eich barn ar yr angen am Gomisiwn Bwyd i Gymru?




| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ie | 33 | 67 |
| Na | 3 | 6 |
| Dim ateb / aneglur | 13 | 27 |

Heb gynnwys 'dim ateb/aneglur':

| | % |
|---|---|
| Ie | 92 |
| Na | 8 |

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (67 y cant) yn cefnogi'r angen am Gomisiwn Bwyd Cymru, tra bod dros chwarter (27 y cant) heb fynegi barn glir. O'r rhai a fynegodd farn glir, roedd y mwyafrif helaeth (92 y cant) o blaid sefydlu Comisiwn.

Roedd cefnogaeth i Gomisiwn Bwyd Cymru ar draws y sectorau ffermio, amgylcheddol ac iechyd. Dywedodd NFU Cymru:

> *NFU Cymru agrees with the establishment of a sufficiently resourced Welsh Food Commission which will monitor and report on progress towards Government commitments and statutory commitments to oversee the delivery of the food goals and food plans and to advise public bodies in relation to food matters. NFU Cymru agrees with the goals and functions of the Welsh Food Commission, its size, and the process for appointing its membership.*

Dywedodd Maint Cymru:

> *This is essential. A Welsh Food Commission composed of members who understand the food, environment and policy landscape in Wales, will be key in helping to shape sustainable*

> *food production, equitable access to healthy, nature-friendly food and influencing outcomes across sectors - e.g. public, private and community.*

Er eu bod yn cefnogi'r angen am Gomisiwn, roedd rhai ymatebwyr yn y sector iechyd yn dymuno osgoi dyblygu. Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei fod:

> *…yn cefnogi'r cynnig i gael Comisiwn Bwyd i Gymru. Byddai angen i'r Comisiwn ystyried sut y bydd yn gweithio ochr yn ochr â grwpiau presennol i atal dyblygu a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl drwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth.*

Yn yr un modd, dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru:


> *… such a group should bring existing food policy focussed groups together where appropriate as opposed to replicating work …*

Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr yr angen i'r Comisiwn a'i waith gael eu halinio'n glir â *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*, gan gynnwys cael eu halinio ag amcanion llesiant Llywodraeth Cymru. Dywedodd Cynhrair Polisi Bwyd Cymru:

> *… the Bill proposes that the Food Commission provides advice, scrutiny and reviews the performance of public bodies and the Welsh Government in relation to food goals. The Bill should go further and outline that it will consult with the Auditor General and Future Generations Commissioner to ensure alignment with their advisory, monitoring and accountability functions in relation to the Well-Being of Future Generations Act. For example, the Food Commission should coordinate advice, scrutiny, monitoring and accountability for public bodies around food goals with the work of the Auditor General and Future Generations Commissioner in relation to their functions to support and monitor public bodies' well-being plans.*

Cwestiynodd Cymdeithas Feddygol Prydain yr angen am Gomisiwn gan nodi y gallai'r swyddogaethau arfaethedig fod yn fwy addas i'r Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol presennol.

## 12. A ydych yn cytuno â nodau a swyddogaethau Comisiwn Bwyd Cymru? Os na, pa newidiadau y byddech chi'n eu hawgrymu?




| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ie | 19 | 39 |
| Na | 12 | 24 |
| Dim ateb / aneglur | 18 | 37 |

Heb gynnwys 'dim ateb/aneglur':


| | % |
|---|---|
| Ie | 61 |
| Na | 39 |

Ni fynegodd lleiafrif sylweddol (37 y cant) o ymatebwyr farn glir ar nodau a swyddogaethau'r Comisiwn arfaethedig. O'r rhai a fynegodd farn glir, roedd y mwyafrif (61 y cant) yn cytuno â'r nodau a'r swyddogaethau a nodir yn y Bil drafft.

Y farn fwyaf cyffredin ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno oedd y dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am arwain datblygiad y strategaeth fwyd genedlaethol, yn hytrach na bod hyn yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru. Mae'r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru "geisio cyngor" gan y Comisiwn wrth ddatblygu'r strategaeth genedlaethol. Wrth wneud y pwynt hwn dywedodd rhai ymatebwyr hefyd y gallai Comisiynydd Bwyd penodedig arwain gwaith y Comisiwn. Er enghraifft, dywedodd Cynghrair Polisi Bwyd Cymru:

> *The Bill has fallen short of suggesting a dedicated Food Commissioner for Wales. We feel that a Food Commissioner, together with the Food Commission, should hold responsibility for carrying out the process of coproduction (collaboration and involvement) to develop the Wales National Food Strategy, from the ground up. The Commission would present a draft Strategy, based on coproduction principles, to Welsh Ministers for approval. The Commission leading on this process will help ensure that the strategy is integrated across WG departmental priorities.*

## 13. A ydych yn cytuno â maint aelodaeth y Comisiwn Bwyd a'r broses ar gyfer penodi ei aelodau?




| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ie | 11 | 22 |
| Na | 15 | 31 |
| Dim ateb / aneglur | 23 | 47 |

Heb gynnwys 'dim ateb/aneglur':

| | % |
|---|---|
| Ie | 42 |
| Na | 58 |

Ni fynegodd bron i hanner (47 y cant) o'r ymatebwyr farn glir ar faint aelodaeth y Comisiwn a'r broses ar gyfer penodi ei aelodau. O'r rhai a fynegodd farn glir, roedd mwyafrif (58 y cant) yn anghytuno â'r cynigion a nodir yn y Bil drafft.

Y mater mwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd yr angen i aelodaeth y Comisiwn fod yn eang ac yn gynhwysol. Dywedodd **Cyngor Sir Fynwy**:

> *We would suggest that the phrasing of para. 43 [of the consultation document] be strengthened. The current phrasing is 'In appointing an individual, the Welsh Ministers must have regard to the desirability of members having a range of skills and experiences.' This seems insufficient to ensure that the Commission remains truly diverse and representative of the many interests at stake. We suggest rather that 'Welsh Ministers must ensure that the Commission always represents a range of interests across society'.*

Dywedodd **Cwmpas**:

> *We believe it is essential that there is clear representation for the wider community on this Commission, as well as economic*

> *models within the food sector that prioritise community-led development and social value.*


Dywedodd RSPCA ei fod am weld gwaith ymgynghori â rhanddeiliaid fel rhan o'r broses benodi:

> *While the Bill contains proposals for the Welsh Government to consult with the Senedd before appointing Commission members, we would urge a wider consultation process including impacted sectors - such as animal welfare, agriculture etc - when seeking suitable nominees to sit on the Commission.*

Ceisiodd nifer o ymatebwyr sicrhau bod buddiannau penodol yn cael eu cynrychioli ar y Comisiwn. Awgrymodd FDF Cymru y dylid cyfyngu aelodaeth i gynrychiolwyr yn y gadwyn gyflenwi bwyd a diod, gan awgrymu:

> *Going beyond the breadth of the supply chain to include members from outside the food and drink industry would be at the detriment of the group.*

## 14. Beth yw eich barn am y cynnig mai am gyfnod o hyd at bum mlynedd ar y mwyaf y gall y cadeirydd a'r aelodau wasanaethu ac mai dim ond unwaith y gellir ailbenodi unigolyn yn gadeirydd neu'n aelod? Ydych chi'n credu bod hyn yn briodol?




| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ie | 15 | 31 |
| Na | 7 | 14 |
| Dim ateb / aneglur | 27 | 55 |

Heb gynnwys 'dim ateb/aneglur':

| | % |
|---|---|
| Ie | 68 |
| Na | 32 |

Ni fynegodd mwyafrif (55 y cant) o'r ymatebwyr farn glir ar y cwestiwn hwn. O'r rhai a fynegodd farn glir, roedd mwyafrif sylweddol (68 y cant) yn cytuno â'r cynnig mai am gyfnod o hyd at bum mlynedd ar y mwyaf y gall y cadeirydd a'r aelodau wasanaethu ac mai dim ond unwaith y gellir ailbenodi unigolyn yn gadeirydd neu'n aelod.

Roedd yr awgrym mwyaf cyffredin ar gyfer gwelliant yn canolbwyntio ar sicrhau parhad drwy osgoi sefyllfa lle roedd holl aelodau'r Comisiwn yn gadael y Comisiwn ar yr un pryd ar ddiwedd eu tymor. Dywedodd Social Farms and Gardens:

> *The re-appointment of a chair/member only once will ensure new individuals with different experiences are appointed to shape the commission as it evolves. However, consideration needs to be given to how continuity is met in the first number of years – if everyone has to be re-appointed at the end of the 5 year period there could be a cliff edge of skills and understanding lost in fell swoop – or the danger that in year 6 there is no new blood coming through the commission.*

> *Perhaps a rolling 1/3 to step down every 3 years (after the initial period?)*

Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys tymhorau o dair yn hytrach na phum mlynedd, a hyblygrwydd i adolygu a diwygio nifer yr aelodau o'r Comisiwn a hyd eu tymhorau pe bai angen gwneud hynny.


## 15. A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar y Comisiwn Bwyd, gan gynnwys goblygiadau'r cynigion o ran adnoddau a sut y gellid lleihau effaith y goblygiadau hynny?

Nododd Cyngor Sir Fynwy fod yn rhaid i'r Comisiwn gael adnoddau digonol i weithredu'n effeithiol. Rhybuddiodd FareShare Cymru na ddylai’r Comisiwn fynd yn rhy fawr na chostus i’w redeg gan y byddai hyn yn tynnu cyllid i ffwrdd o ble mae ei angen i gyrraedd y targedau a’r nodau.

Pwysleisiodd NFU Cymru yr angen am ffiniau clir rhwng y Comisiwn a'r Asiantaeth Safonau Bwyd er mwyn osgoi dryswch ymhlith y cyhoedd ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau penodol. Dywedodd NFU Cymru hefyd y byddai’n briodol i aelodau’r Comisiwn ymddangos gerbron pwyllgorau perthnasol y Senedd o bryd i’w gilydd i graffu arnynt.

# 7. Strategaeth Fwyd Genedlaethol

## 16. A ydych yn cytuno bod angen strategaeth fwyd genedlaethol?




| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ie | 38 | 78 |
| Na | 2 | 4 |
| Dim ateb / aneglur | 9 | 18 |

Heb gynnwys 'dim ateb/aneglur':

| | % |
|---|---|
| Ie | 95 |
| Na | 5 |

Roedd y mwyafrif helaeth (78 y cant) o ymatebwyr yn cytuno bod angen strategaeth fwyd genedlaethol, dim ond dau ymatebydd (4 y cant) oedd yn anghytuno. Mae'r mwyafrif yn cynyddu i 95 y cant pan fydd y rhai na roddodd ateb clir yn cael eu dileu.

Dywedodd **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**:

> *Oes, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cytuno'n gryf bod angen strategaeth fwyd genedlaethol. Mae angen newid radical yn y system fwyd er mwyn gwella iechyd y cyhoedd a lleihau salwch sy'n gysylltiedig â deiet yng Nghymru. Dylai hyn fod yn amlwg yn y strategaeth. Dylid ysgrifennu'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol gydag arbenigwyr ar draws disgyblaethau i sicrhau gweledigaeth gyfannol ar gyfer bwyd yng Nghymru nad yw'n arwain at ganlyniadau anfwriadol mewn meysydd eraill.*

**Maint Cymru**:

> *Yes. We very much welcome that the draft Bill intends to provide a framework that enables a coherent, consistent and*

*strategic cross-governmental approach to policy and practice on all aspects of the food system. A national food strategy could be core to achieving this joined up approach.*

*As rightly noted in the bill, food policy is too often thought of in silos, with Welsh Government departments taking different approaches to food policy; thus resulting in policy aims that can often contradict each other. We cannot deal with agriculture alone and not the other parts of the food system. We have to deal with food production, consumption and everything else in between in a joined-up manner if we want to ensure that one policy in one food area doesn't have unintended consequences for another food area.*

Dywedodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru:

*We agree on the need for a national food strategy to ensure a joined up approach across all Government departments that have a responsibility for the food system in Wales. This strategy needs to have agroecological principles at its core which will result in multiple benefits for both people and the environment.*

Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen:


*A National Food Strategy will provide local Food Partnerships the powers to invest in the food system, it will create the opportunity to wider engage with businesses and the community. It will also create synergy in measuring success and pave the way to creating sustainable food places.*

Fodd bynnag roedd gan FDF Cymru bryderon am ddyblygu:

*We are supportive of strategies that recognise the importance of food and drink to Wales. We welcomed the publication of the Welsh Government's Vision for Food and Drink last year. It is unclear at this time what another strategy would achieve as we imagine it would replicate much of the targets and themes in the Vision.*

*If another strategy were to be developed, there must be consideration to how it would interact not only with the Welsh Government's vision but also with the Good Food Nation Bill and the Government's National Food Strategy for England.*

## 17. A ydych yn credu bod strategaethau presennol Llywodraeth Cymru o ran bwyd yn ddigon cydgysylltiedig / cyson?




| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ie | 0 | 0 |
| Na | 31 | 63 |
| Dim ateb / aneglur | 18 | 37 |

Heb gynnwys 'dim ateb/aneglur':

| | % |
|---|---|
| Ie | 0 |
| Na | 100 |

Nid yw'r mwyafrif (63 y cant) o'r ymatebwyr yn credu bod strategaethau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â bwyd yn ddigon cydgysylltiedig. Ni fynegodd 37 y cant farn glir. Ni atebodd unrhyw un o'r ymatebwyr 'ydw' i'r cwestiwn hwn, felly roedd 100 y cant o'r rhai a fynegodd farn glir yn credu nad oedd y strategaethau'n ddigon cydgysylltiedig.

Dywedodd Social Farms and Gardens:

> *No, not at all. Food operates across all areas of life, as the Incredible Edible Movement would say 'if you eat you are in the club'. Yet in government "food" is siloed – perhaps in terms of agriculture, or food production. It is separately thought of in terms of health and hardly features in Net Zero plans! There is an opportunity to develop a closer working via local food partnerships. This would develop a coherent and strengthened approach to working on shared opportunities and challenges locally, as well as a Food Commission nationally to provide governance and oversight.*


Dywedodd Cyngor Sir Fynwy:

> *Though Wales benefits from overarching legislation that sets a context for joined-up food policy (e.g. the Wellbeing of Future Generations Act; the Environment Act), and enjoys a strong ethos of partnership working, there is still some way to go in fully integrating the economic, health, social, environmental, and agricultural agendas.*
>
> *Each has different interest groups, which can pull in different directions and occasionally directly conflict (e.g. when negotiating the discourse around shifts in diet or land management). A carefully worked national strategy would be a step forward in reconciling these agendas to provide clarity to stakeholders and help secure a healthy, sustainable, and secure future for Wales.*

Dywedodd Tîm Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan Gwent:

> *We recognise that progress is being made by Welsh Government to join up key agendas. For example, the recent commitment to provide universal Free School Meals to all Primary aged children also included the desire to increase the amount of locally produced food. This ties in with the commitment to produce a Community Food Strategy to strengthen local food supply chains.*
>
> *However, we feel that greater integration is required. The 'Healthy Weight: Healthy Wales' long term strategy to prevent and reduce obesity includes a national priority area to shape the food and drink environment towards sustainable and healthier options. This priority would benefit from alignment with economic and agricultural policy so that longer term planning of Welsh food production could better meet health goals.*

## 18. A yw'r Bil drafft yn gwneud digon i sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael cyngor ac yn ymgynghori ar y strategaeth cyn iddi gael ei gwneud. Os na, pa fecanweithiau ychwanegol y byddech yn eu rhoi ar waith?




| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ie | 4 | 8 |
| Na | 21 | 43 |
| Dim ateb / aneglur | 24 | 49 |

Heb gynnwys 'dim ateb/aneglur':

| | % |
|---|---|
| Ie | 16 |
| Na | 84 |

Ni fynegodd bron i hanner yr ymatebwyr farn glir ar y cwestiwn hwn. O'r rhai a fynegodd farn glir, nid oedd mwyafrif helaeth (84 y cant) yn credu bod y Bil drafft yn gwneud digon i sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cymryd cyngor ac yn ymgynghori ar y strategaeth genedlaethol cyn iddi gael ei llunio.

Barn gadarn yr ymatebwyr oedd y dylai'r Bil fod yn gryfach o ran nodi ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid, arbenigwyr a'r cyhoedd yn ystod y broses o ddatblygu'r strategaeth genedlaethol. Dywedodd nifer o ymatebwyr y dylid cyd-gynhyrchu'r strategaeth. Er enghraifft, dywedodd Cynghrair Polisi Bwyd Cymru:

> *In light of the five ways of working (integration, involvement, collaboration, prevention and long-term thinking) in particular, involvement, integration and collaboration, there is a legal mandate to engage with as wide a range of actors within the food system as possible to build the National Food Strategy. Therefore, a set of principles that guide the actions of the Commission is needed. As everyone is a consumer, this means engaging with the wider public in the process, for example through citizen assemblies, and ensuring that the resulting*

*vision reflects the identified priorities and builds upon their lived experiences. In this way we also support the development of food citizens and the need to build stronger and more empowered communities and to ensure a Wales Food System Strategy that is co-produced.*

Dywedodd Cyngor Sir Fynwy:

*We suggest that in para. 65 the wording 'persons they consider to be independent and to have relevant expertise' is vague. It may be beneficial to specify certain sectors that must be consulted, representing diverse interests from the whole supply chain (e.g. the farming and horticulture community, businesses of all sizes, healthcare professionals, local authorities, consumers), while also allowing Ministers to exercise their judgement as to who else they wish to consult.*

Dywedodd CLlLC y bydd gwaith ymgynghori ag awdurdodau lleol fel haen o lywodraeth a etholir yn ddemocrataidd yn hanfodol. Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe y dylai'r strategaeth fod yn destun craffu yn y Senedd.


Dywedodd Maint Cymru, Social Farms and Gardens, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac eraill y dylai gwaith ymgynghori â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod yn ofyniad (mae'r Bil drafft yn dweud y gallai Gweinidogion Cymru ofyn am gyngor Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol).

Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai adolygydd annibynnol ddatblygu'r strategaeth. Er enghraifft, dywedodd Bwyd Sir Gâr:

*The Bill does state that ministers must consult persons they consider to be independent and have the relevant expertise – could this go further with an independent reviewer being tasked with developing the food strategy as opposed to the ministers. If this is not possible other relevant commissioners (e.g. Future Generations Commissioner), must be consulted (as opposed to 'may be consulted').*

Dywedodd Maint Cymru y dylid ehangu'r rhestr o rwymedigaethau rhyngwladol y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddynt i gynnwys Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Frodorol a'r hawl i Gydsyniad Rhydd, Ymlaen Llaw, a Gwybodus sy'n ymwneud â gweithgareddau ar diroedd brodorol.

## 19. A ydych yn credu bod darpariaethau'r Bil drafft sy'n ymwneud ag adrodd ar y strategaeth fwyd genedlaethol yn ddigonol? Os na, pa newidiadau yr hoffech eu gweld?




| | Nifer | %[1] |
|---|---|---|
| Ie | 12 | 25 |
| Na | 12 | 25 |
| Dim ateb / aneglur | 25 | 50 |

Heb gynnwys 'dim ateb/aneglur':

| | % |
|---|---|
| Ie | 50 |
| Na | 50 |

Ni fynegodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr farn glir ynghylch a yw'r darpariaethau yn y Bil drafft sy'n ymwneud ag adrodd ar y strategaeth fwyd genedlaethol yn ddigonol. Roedd rhaniad cyfartal ymhlith y rhai a fynegodd farn glir ynghylch a oedd y Bil drafft yn gwneud digon.

Dywedodd Bwyd Sir Gâr, Social Farms and Gardens, Maint Cymru a WWF Cymru:

> *We would like to see it made explicit that there would be reciprocal and good communication and support between a food commission and local food partnerships, to ensure that there is consistent and even progress at a local level.*

Roedd rhai ymatebwyr yn dymuno gweld adroddiadau blynyddol neu interim. Er enghraifft, dywedodd Cymdeithas Ddeieteg Prydain:

> *… Yes 2 yearly detailed reports are sufficient given the scope of the strategy, although 12 month interim progress reports would*


[1] Ffigurau'n destun talgrynnu

> *be helpful in ensuring momentum in the initial establishment period. The reports should be inclusive and appropriate for all stakeholders including the lay person.*

Roedd eraill eisiau hyblygrwydd i adolygu a diwygio camau gweithredu os oedd angen. Dywedodd FareShare Cymru:

> *It would seem essential that reporting not only includes progress made but also considers what hasn't been achieved and why and what can be done to address that, as well as any new actions that may be needed.*

## 20. A ydych yn credu bod darpariaethau'r Bil drafft sy'n ymwneud ag adolygu'r strategaeth fwyd genedlaethol yn ddigonol? Os na, pa newidiadau yr hoffech eu gweld?




| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ie | 11 | 23 |
| Na | 9 | 18 |
| Dim ateb / aneglur | 29 | 59 |

Heb gynnwys 'dim ateb/aneglur':

| | % |
|---|---|
| Ie | 55 |
| Na | 45 |

Ni fynegodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (59 y cant) farn glir ynghylch a yw'r darpariaethau yn y Bil drafft sy'n ymwneud ag adolygu'r strategaeth fwyd genedlaethol yn ddigonol. O'r rhai a fynegodd farn glir, dywedodd y mwyafrif (55 y cant) fod y darpariaethau'n ddigonol.

Yr awgrym mwyaf cyffredin a wnaed gan ymatebwyr oedd bod y cyfnod adolygu o bum mlynedd yn y strategaeth yn rhy hir. Dywedodd y Grŵp Cynghori ar Nwyddau'r GIG:

> *… the five-year time period for reviewing the national food strategy is a significant amount of time. The CAG would suggest that the National Food Strategy is reviewed every two years to account for change, with wider engagement required to ensure consensus across all stakeholders.*

Dywedodd FareShare Cymru:

> *The provisions for review seem to be in line with the review periods of other strategies. It is understood that some actions will take time to be implemented and make a difference. However, perhaps there needs to be provision for reviewing more frequently if necessary or deemed appropriate. Few people could have predicted the events of the last few years,*

*and yet the impact on the food system has been dramatic at times, and so the ability to bring forward a review may prove beneficial.*

## 21. A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar y Strategaeth Fwyd Genedlaethol, gan gynnwys goblygiadau'r cynigion o ran adnoddau a sut y gellid lleihau effaith y goblygiadau hynny?

Dywedodd FareShare Cymru:


> *There is a need to consider the resource implications and funding requirements of organisations that will be impacted by actions/ targets set out in the national plan.*

Dywedodd yr Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig:

> *This Bill and its aims could simply place a duty on the Ministers and their office without the need for a commission, if costs were too great.*

# 8. Cynlluniau Bwyd Lleol

## 22. A ydych yn cytuno bod angen cynlluniau bwyd lleol?




| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ie | 35 | 71 |
| Na | 3 | 6 |
| Dim ateb / aneglur | 11 | 23 |

Heb gynnwys 'dim ateb/aneglur':

| | % |
|---|---|
| Ie | 92 |
| Na | 8 |

Roedd y mwyafrif helaeth (71 y cant) o'r ymatebwyr yn cytuno bod angen cynlluniau bwyd lleol. Mae'r mwyafrif yn cynyddu i 92 y cant pan fydd y rhai na roddodd ateb clir yn cael eu dileu.

Er bod cefnogaeth eang i gynlluniau bwyd lleol, roedd teimlad cryf hefyd y dylid eu datblygu ar y cyd ac y dylai fod hyblygrwydd i adlewyrchu materion a heriau lleol. Dywedodd Tîm Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan Gwent:

> *Yes we think local food plans are needed. Action is needed by public bodies at all levels covering local, regional and national if we are to shift the food culture and achieve broad food system and Wales' well-being goals.*
>
> *It is worth noting that place based food strategies have been developed across the UK. These go beyond the remit of a single local authority or health board and reflect broad ownership of the agenda across business, voluntary, community and public sector. There are also examples where local authorities have*

> *published food plans that are solely focused on the actions that the local authority itself can take.*

Dywedodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Cultivate, Cyngor Sir Fynwy, Cwmpas, Social Farms and Gardens a Bwyd Sir Gâr y dylai'r rhwydwaith presennol o Bartneriaethau Bwyd Lleol a sefydliadau eraill, gan gynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, chwarae rhan flaenllaw wrth ddatblygu cynlluniau bwyd lleol. Dywedodd llawer y dylai Partneriaethau Bwyd Lleol chwarae rhan benodol wrth ddatblygu a chyflawni'r cynlluniau. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen:

> *We also agree that each area should develop local food plans, but we believe this should be a multi sectoral place based approach and owned by the multi sectoral Food Partnership. There is no need to confuse the issue with duplicate plans for different public sector bodies.*


Dywedodd Cynhrair Polisi Bwyd Cymru:

> *... targets could then be built into Wellbeing Objectives (see A.1) and delivered through local food plans overseen at a local level by Food Partnerships working in conjunction with Public Service Boards. Examples of where this practice is already developing can be seen through the emerging Network of Sustainable Food Partnerships and in particular Blaenau Gwent Food, Bwyd Sir Gar, Food Cardiff, Monmouthshire Food and Food Vale.*

Dywedodd RSPB Cymru:

> *... there should be a duty (rather than have regard for) placed on public bodies to incorporate the National Food Strategy priorities into their decision making e.g. when sourcing and buying food.*

## 23. A yw'r Bil drafft yn gwneud digon i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ymgynghori ar eu cynlluniau bwyd lleol cyn iddynt gael eu gwneud? Os na, pa fecanweithiau ychwanegol y byddech yn eu rhoi ar waith?




| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ie | 7 | 14 |
| Na | 18 | 37 |
| Dim ateb / aneglur | 24 | 49 |

Heb gynnwys 'dim ateb/aneglur':

| | % |
|---|---|
| Ie | 28 |
| Na | 72 |

Ni fynegodd ychydig llai na hanner yr ymatebwyr farn glir ynghylch a yw'r Bil drafft yn gwneud digon i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ymgynghori ar eu cynlluniau bwyd lleol cyn iddynt gael eu gwneud. O'r rhai a fynegodd farn glir, dywedodd y mwyafrif helaeth (72 y cant) nad oedd y Bil drafft yn gwneud digon yn y maes hwn.

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn debyg i'r rhai a gafwyd i gwestiwn 18 (A yw'r Bil drafft yn gwneud digon i sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael cyngor ac yn ymgynghori ar y strategaeth cyn iddi gael ei gwneud. Os na, pa fecanweithiau ychwanegol y byddech chi yn eu rhoi ar waith?).

Teimlai llawer o'r ymatebwyr y dylai'r Bil drafft fod yn gryfach o ran ei gwneud yn ofynnol ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid lleol a chymunedau lleol yn ystod y broses ar gyfer datblygu'r cynlluniau bwyd lleol. Er enghraifft, dywedodd Social Farms and Gardens:

> *There is a need for local food plans to ensure plans are relevant to the local area. The draft Bill does not yet set out enough detail to ensure the public bodies consult widely on their local food plan. Any such plan has to be shaped in partnership with*

> *key local stakeholders including local businesses, farmers, producers, and the communities it may have an impact on.*
>
> *The language uses the terms 'may consult' which does not go far enough to ensure the local food plan is developed in true partnership with the public body and the communities they serve.*


Pwysleisiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yr angen i fanteisio ar fecanweithiau presennol a dywedodd y dylai fod gofyniad i gyrff cyhoeddus ddangos sut y maent wedi ymgynghori â grwpiau perthnasol:

> *There are existing mechanisms in place through the WFGA and the Public Service Boards which could be utilised, but it would be useful to consider how local food plans could align with this and to consider what the added benefit would be of introducing additional mechanisms. Equally and additionally, there should be a requirement that public sector bodies demonstrate how they have consulted with each other and involved a wide range of relevant stakeholders/target audiences in the production of local food plans e.g. growers, suppliers, staff, population groups, vulnerable groups etc.*

Dywedodd FDF Cymru y dylid ymgynghori â'r diwydiant hefyd:

> *As part of the consultation process, public bodies should not only consult the Welsh Food Commission but also food and drink businesses within their local area and their representative organisations.*

## 24. A ydych yn credu bod darpariaethau'r Bil drafft sy'n ymwneud ag adrodd ar y cynlluniau bwyd lleol yn ddigonol? Os na, pa newidiadau yr hoffech eu gweld?




| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ie | 9 | 18 |
| Na | 15 | 31 |
| Dim ateb / aneglur | 25 | 51 |

Heb gynnwys 'dim ateb/aneglur':

| | %[2] |
|---|---|
| Ie | 37.5 |
| Na | 62.5 |

Ni fynegodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr farn glir ynghylch a yw'r darpariaethau yn y Bil drafft sy'n ymwneud ag adrodd ar y cynlluniau bwyd lleol yn ddigonol. O'r rhai a fynegodd farn glir, dywedodd y mwyafrif (62.5 y cant) nad oedd y Bil drafft yn gwneud digon yn y maes hwn.

Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai adrodd gael ei integreiddio â mecanweithiau presennol. Dywedodd Tîm Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan Gwent y dylai cyrff cyhoeddus ymgorffori adroddiadau ar gynnydd tuag at eu cynlluniau bwyd lleol yn eu hadroddiadau blynyddol corfforaethol. Dywedodd Maint Cymru (yng nghyd-destun caffael cyhoeddus):

> *Public Service Board Well-being Plans should include public value criteria around environmental, welfare and nutritional standards in food production.*

[2] Ffigurau'n destun talgrynnu

Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe:

> *There should be a requirement to demonstrate how they report back to the relevant local stakeholders/target audiences as part of a fair, transparent and co-productive approach to the development, reporting and reviewing of local food plans, which will also help to drive up local engagement in food issues.*

Gofynnodd WWF Cymru:

> *What are the consequences if a public sector body fails to act? There should be a minimum requirement to ensure progress is made.*

Dywedodd FareShare Cymru:

> *As with the national food plan it would seem essential that reporting not only includes progress made but also considers what hasn't been achieved and why and what can be done to address that, as well as any new actions that may be needed.*


Awgrymodd NFU Cymru y dylid adrodd yn fwy rheolaidd:

> *We believe the requirement to report on local food plans at least every two years could be more ambitious, particularly as we move away from CAP legacy support schemes and farmers are subject to significantly increased costs of production which are likely to persist for some time into the future.*

Cododd Cymdeithas Ddeieteg Prydain a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gwestiwn ynghylch ymarferoldeb, gan awgrymu dull gwahanol. Dywedodd CLlLC:

> *Byddem yn cwestiynu pa mor ymarferol fydd hi i bob corff cyhoeddus ymgynghori â'r Comisiwn Bwyd i Gymru cyn gwneud adroddiad yn erbyn eu cynllun bwyd lleol. Un ffordd arall o wneud hyn fyddai i'r Comisiwn Bwyd i Gymru ddarparu fframwaith ar gyfer adrodd ar gyflawniadau yn erbyn nodau a thargedau bwyd.*

## 25. A ydych yn credu bod darpariaethau'r Bil drafft sy'n ymwneud ag adolygu'r cynlluniau bwyd lleol yn ddigonol? Os na, pa newidiadau yr hoffech eu gweld?




| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ie | 6 | 12 |
| Na | 9 | 18 |
| Dim ateb / aneglur | 34 | 70 |

Heb gynnwys 'dim ateb/aneglur':

| | % |
|---|---|
| Ie | 40 |
| Na | 60 |

Ni fynegodd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr (70 y cant) farn glir ynghylch a yw darpariaethau'r Bil drafft sy'n ymwneud ag adolygu'r cynlluniau bwyd lleol yn ddigonol. O'r rhai a fynegodd farn glir, dywedodd y mwyafrif (60 y cant) nad oedd y Bil drafft yn gwneud digon yn y maes hwn.

Dywedodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys **Cyngor Abertawe** a'r **Grŵp Cynghori ar Nwyddau'r GIG,** nad yw'r amserlen bum mlynedd ar gyfer adolygu'r cynlluniau bwyd lleol yn ddigon rheolaidd. Awgrymodd **Cymdeithas Ddeieteg Prydain** y byddai eu hadolygu bob dwy flynedd yn well. Dywedodd **FareShare Cymru**:

> *... perhaps there needs to be provision for reviewing more frequently if necessary or deemed appropriate. Few people could have predicted the events of the last few years, and yet the impact on the food system has been dramatic at times, and so the ability to bring forward a review may prove beneficial.*

Awgrymodd Tîm Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan Gwent y dylid alinio â chylchoedd adolygu presennol:

> *Yes we think reviewing every 5 years is sufficient. Consideration should also be given into how local food plans can align with key plans already in place and encourage public bodies to embed where feasible. For example, Local Well-being Plans (WFG Act) at regional/local level, and Integrated Medium-Term Plans (IMTPs) in Local Health Boards (organisational-level).*

## 26. A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar y cynlluniau bwyd lleol, gan gynnwys goblygiadau'r cynigion o ran adnoddau a sut y gellid lleihau effaith y goblygiadau hynny?

Dywedodd nifer o ymatebwyr gan gynnwys CLlLC, Cyngor Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe fod angen sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cael yr adnoddau angenrheidiol er mwyn datblygu a gweithredu cynlluniau lleol yn llwyddiannus. Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:


> *Bydd datblygu cynlluniau lleol yn effeithiol, monitro ac adrodd ar gynnydd yn dibynnu ar allu staff y sector cyhoeddus sydd eisoes dan bwysau. Gallai cynnig fframwaith ar gyfer datblygu cynllun bwyd ar gyfer pob ardal fod yn ddefnyddiol ochr yn ochr â chanllawiau posibl ar arweinyddiaeth leol.*

Yn ôl Cymdeithas Ddeieteg Prydain:

> *Capacity to support local plans may prove challenging in some areas of Wales, for example in North Wales BCUHB serves 6 LA areas, if each derive their own local plan health board staff may struggle capacity-wise to support all areas. Will there be some recommendations/ guidance around scope for developing local plans?*

# 9. Arall

### 27. A ydych yn cytuno â'r rhestr o bersonau y diffinnir eu bod yn 'gorff cyhoeddus' at ddibenion y Bil hwn?




| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ie | 14 | 29 |
| Na | 7 | 14 |
| Dim ateb / aneglur | 28 | 57 |

Heb gynnwys 'dim ateb/aneglur':

| | % |
|---|---|
| Ie | 67 |
| Na | 33 |

Ni fynegodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (57 y cant) farn glir ynghylch a oeddent yn cytuno â'r rhestr o bersonau y ddiffinnir eu bod yn 'gorff cyhoeddus' at ddiben y Bil. O'r rhai a fynegodd farn glir, dywedodd y mwyafrif (67 y cant) eu bod yn cytuno â'r cynigion yn y Bil drafft.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr yn y sector iechyd y dylid ehangu'r rhestr o gyrff cyhoeddus a ddiffinnir yn y Bil drafft i adlewyrchu'r rhai a ddiffinnir yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* neu *Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015*. Dywedodd y Grŵp Cynghori ar Nwyddau'r GIG:

> *… other public sector organisations should be captured under the notion of a public body. This would include NHS Trusts, NHS Special Authorities etc. The CAG would suggest the utilisation of the Public Bodies as defined by the Public Contract Regulations 2015 or the Well Being of Future Generations Act 2015 as a means to improve this.*

Awgrymodd YDCW:

> *The list of 'public bodies' could be extended to include any organisation that receives funding from public funds.*

## 28. A oes gennych unrhyw farn ar y broses a nodir yn y Bil ar gyfer gwneud rheoliadau?

Dywedodd NFU Cymru nad oedd yn dymuno gweld Gweinidogion Cymru yn cael y pŵer i eithrio eu hunain o’r diffiniad o gorff cyhoeddus:

> *We note the power conferred upon Welsh Ministers to expand and amend the field of persons captured by the definition of a ‘public body’ and it may well be the case that at some stage in the future Welsh Ministers may need to revisit this list. We would however wish to be clear that it should not be open to Welsh Ministers to amend subsection 1 so that Welsh Ministers are not captured by the meaning of ‘public body’.*

## 29. A oes gennych unrhyw farn ar ddyddiad cychwyn arfaethedig y Ddeddf?

Ni atebodd y rhan fwyaf o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Dywedodd y rhai a atebodd eu bod yn dymuno gweld y ddeddfwriaeth yn dod i rym cyn gynted â phosibl. Yn ôl Cymdeithas Ddeieteg Prydain:

> *We welcome this Bill and would advocate an early commencement, particularly given the current economic crisis, food poverty and global food supply disruptions and shortages.*

# 10. Sylwadau pellach

Awgrymodd **Archwilio Cymru** newidiadau i'r darpariaethau yn y Bil drafft sy'n ymwneud ag archwilio:

> *Mae angen gwneud rhai newidiadau i'r darpariaethau archwilio a nodir yn Rhan 4 o'r Mesur drafft er mwyn sicrhau bod darpariaethau archwilio yn cyrraedd y safon sydd bellach yn berthnasol i'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus Cymru, gan gynnwys holl gyrff Llywodraeth Leol a GIG.*
>
> *Un elfen allweddol sydd ar goll yn y Mesur drafft ydy darpariaeth sydd yn cyfateb i adran 17(2)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r adran honno yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol fodloni ei hun bod corff wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.*

Ac:

> *Mae hefyd angen sicrhau bod darpariaethau archwilio yn cyrraedd y safon sydd bellach yn berthnasol i gyrff newydd o ran terfynau amser ar gyfer cyflwyno ac archwilio cyfrifon. Mae adran 17 o'r Mesur drafft yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Bwyd gyflwyno ei gyfrifon i Archwilydd Cyffredinol Cymru fan bellaf erbyn 31 Awst yn y flwyddyn ariannol ganlynol, ac i'r Archwilydd Cyffredinol osod y datganiadau ariannol a archwiliwyd gerbron y Senedd o fewn pedwar mis i'r cyfrifon gael eu cyflwyno. Fodd bynnag, mae angen darpariaeth i ymdrin â'r senario lle nad yw'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu rhoi barn a'i osod gerbron y Senedd o fewn pedwar mis i'r cyfrifon gael eu cyflwyno.*

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y ffaith bod angen mwy o wybodaeth am sut y byddai'r bil yn rhyngweithio â deddfwriaeth allweddol arall. Er enghraifft, dywedodd **Social Farms and Gardens**:

> *The consultation document references the Social Values and Procurement Bill, The Agriculture Bill and the Community Food Strategy. However, it has omitted reference to how it would interface with the Environment (Wales) Act, the Public Health (Wales) Act and to provide sufficient detail on the relationship*

> *between the Food Bill and the Wellbeing of Future Generations Act.*

Gofynnodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chymdeithas Ddeieteg Prydain sut y byddai gofynion y Bil yn rhyngweithio â gweithgareddau'r sector preifat sy'n gweithredu ledled y DU. Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:

> *Bydd angen ystyried sut y bydd darparwyr yn y sector preifat (manwerthwyr, cynhyrchwyr, ac ati) yn cael eu cynnwys fel rhan o'r strategaeth fwyd genedlaethol. Yn benodol, manwerthwyr a gweithgynhyrchwyr mawr sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru. Dylai fod yn glir sut y bydd deddfwriaeth yn cael ei gweithredu pan fydd cwmni'n gorfod dilyn deddfwriaeth wahanol yn y pedair gwlad ar draws y DU.*

Dywedodd Cymdeithas Ddeieteg Prydain a FDF Cymru y dylai nodau'r Bil gyd-fynd â deddfwriaeth a pholisi yn yr Alban a Lloegr. Dywedodd FDF Cymru y dylai'r rhain ategu ei gilydd i fynd i'r afael â chadwyn cyflenwi bwyd y DU yn ei chyfanrwydd.

Gwnaeth nifer o ymatebwyr yn cynnwys Partneriaeth Bwyd y Fro, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Bwyd Caerdydd ategu'r angen i'r cyrff lleol a ddiffinnir yn y Bil drafft (awdurdodau lleol a byrddau iechyd cyhoeddus) gael adnoddau digonol. Dywedodd Partneriaeth Bwyd Lleol Blaenau Gwent:

> *If the draft Food (Wales) Bill does become legislation, further funding would be vital for local organisations such as Local Authorities and Health Boards to be compliant with the primary and secondary food goals. Local food partnerships could play a key role in this case, local food partnerships have the skills and relationships to connect and coordinate food goals and local food plans with the support of local anchor institutions.*

# 11. Atodiad 1: Rhestr o'r ymatebwyr

Ymatebodd y sefydliadau a’r unigolion a ganlyn i’r ymgynghoriad:

| |
|---|
| Tîm Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan Gwent |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| Archwilio Cymru |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Partneriaeth Bwyd Lleol Blaenau Gwent |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| Cymdeithas Ddeieteg Prydain |
| Cymdeithas Feddygol Prydain yng Nghymru |
| Bwyd Sir Gâr |
| Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig |
| Coed Cadw |
| Y Gynghrair Cefn Gwlad |
| Cultivate |
| Cwmpas |
| David Smith, cyn aelod o Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (2000-2006), Asiantaeth Safonau Bwyd |
| Diabetes UK Cymru |
| Dr Robert Bowen, Ysgol Busnes Caerdydd, Prifysgol Caerdydd |
| FareShare Cymru |
| Undeb Amaethwyr Cymru |
| Ffederasiwn Bwyd a Diod Cymru |
| Bwyd Caerdydd |
| Cynghrair Polisi Bwyd Cymru |
| Partneriaeth Bwyd y Fro |
| Hybu Cig Cymru |

| |
|---|
| Cynghrair Gweithwyr Tir Cymru |
| Cyngor Sir Fynwy |
| Y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru |
| Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur Cymru |
| NFU Cymru |
| Grŵp Cynghori ar Nwyddau GIG Cymru (Grŵp Strategol) |
| RSPB Cymru |
| RSPCA Cymru |
| Maint Cymru |
| Social Farms and Gardens |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| Cyngor Abertawe |
| Rhwydwaith Darparwyr Bwyd Cymunedol y Trydydd Sector, Casnewydd |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Ymddiriedolaethau Natur Cymru |
| WWF Cymru |
| Saith unigolyn preifat |

## 12. Atodiad 2: Tabl crynodeb o'r ymatebion

| Ymgynghoriad ar y Bil Bwyd (Cymru) | Cyfanswm | | | % | | | % | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cafwyd 49 o ymatebion ? = dim ateb neu ateb aneglur | | | | | | | Heb gynnwys dim ateb neu ateb aneglur | |
| | Ie | Na | ? | Ie | Na | ? | Ie | Na |
| **Cyffredinol** | | | | | | | | |
| 1. A ydych yn cytuno â'r egwyddorion cyffredinol y mae'r Bil yn ceisio eu cyflawni? | 35 | 9 | 5 | 72 | 18 | 10 | 80 | 20 |
| 2. A ydych yn credu bod angen y ddeddfwriaeth hon? A allwch roi rhesymau dros eich ateb? | 37 | 5 | 7 | 76 | 10 | 13 | 88 | 12 |
| **Nodau** | | | | | | | | |
| 4. A ydych yn cytuno â chynnwys Nod Bwyd Sylfaenol wedi'i ategu gan Nodau Bwyd Eilaidd? | 29 | 4 | 16 | 59 | 8 | 33 | 88 | 12 |
| **Targedau** | | | | | | | | |
| 7. Rhowch eich barn ar gynnwys targedau yn y Bil fel modd o fesur sut mae'r Nodau Bwyd yn cael eu datblygu. | 25 | 3 | 21 | 51 | 6 | 43 | 89 | 11 |
| 8. A ydych yn cytuno â'r broses ar gyfer gosod y targedau? | 15 | 13 | 21 | 31 | 26 | 43 | 50 | 46 |
| 9. A ydych yn credu bod y mecanweithiau adrodd a nodir yn y Bil drafft yn sicrhau digon o atebolrwydd a digon o gyfle i graffu? | 12 | 13 | 24 | 24 | 27 | 49 | 48 | 54 |
| **Comisiwn Bwyd Cymru** | | | | | | | | |
| 11. Beth yw eich barn ar yr angen am Gomisiwn Bwyd i Gymru? | 33 | 3 | 13 | 67 | 6 | 27 | 92 | 8 |

| Ymgynghoriad ar y Bil Bwyd (Cymru) | Cyfanswm | | | % | | | % | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12. A ydych yn cytuno â nodau a swyddogaethau Comisiwn Bwyd Cymru? Os na, pa newidiadau y byddech chi'n eu hawgrymu? | 19 | 12 | 18 | 39 | 24 | 37 | 61 | 39 |
| 13. A ydych yn cytuno â maint aelodaeth y Comisiwn Bwyd a'r broses ar gyfer penodi ei aelodau? | 11 | 15 | 24 | 22 | 31 | 49 | 42 | 58 |
| 14. Beth yw eich barn am y cynnig mai am gyfnod o hyd at bum mlynedd ar y mwyaf y gall y cadeirydd a'r aelodau wasanaethu ac mai dim ond unwaith y gellir ailbenodi unigolyn yn gadeirydd neu'n aelod? Ydych chi'n credu bod hyn yn briodol? | 15 | 7 | 27 | 31 | 13 | 55 | 68 | 32 |
| **Y Strategaeth Fwyd Genedlaethol** | | | | | | | | |
| 16. A ydych yn cytuno bod angen strategaeth fwyd genedlaethol? | 38 | 2 | 9 | 78 | 4 | 18 | 95 | 5 |
| 17. A ydych yn credu bod strategaethau presennol Llywodraeth Cymru o ran bwyd yn ddigon cydgysylltiedig / cyson? | 0 | 31 | 18 | 0 | 63 | 37 | 0 | 100 |
| 18. A yw'r Bil drafft yn gwneud digon i sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael cyngor ac yn ymgynghori ar y strategaeth cyn iddi gael ei gwneud. Os na, pa fecanweithiau ychwanegol y byddech yn eu rhoi ar waith? | 4 | 21 | 24 | 8 | 43 | 49 | 16 | 84 |
| 19. A ydych yn credu bod darpariaethau'r Bil drafft sy'n ymwneud ag adrodd ar y strategaeth fwyd genedlaethol yn ddigonol? Os na, pa newidiadau yr hoffech eu gweld?[3] | 12 | 12 | 25 | 25 | 25 | 50 | 50 | 50 |
| 20. A ydych yn credu bod darpariaethau'r Bil drafft sy'n ymwneud ag adolygu’r strategaeth fwyd genedlaethol yn ddigonol? Os na, pa newidiadau yr hoffech eu gweld? | 11 | 9 | 29 | 24 | 18 | 59 | 55 | 45 |
| **Cynlluniau Bwyd Lleol** | | | | | | | | |
| 22. A ydych yn cytuno bod angen cynlluniau bwyd lleol? | 35 | 3 | 11 | 71 | 6 | 22 | 92 | 8 |

[3] Ffigurau’n destun talgrynnu

| Ymgynghoriad ar y Bil Bwyd (Cymru) | Cyfanswm | | | % | | | | % | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 23. A yw'r Bil drafft yn gwneud digon i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ymgynghori ar eu cynlluniau bwyd lleol cyn iddynt gael eu gwneud? Os na, pa fecanweithiau ychwanegol y byddech yn eu rhoi ar waith? | 7 | 18 | 24 | 13 | 37 | 49 | | 28 | 72 |
| 24. A ydych yn credu bod darpariaethau'r Bil drafft sy'n ymwneud ag adrodd ar y cynlluniau bwyd lleol yn ddigonol? Os na, pa newidiadau yr hoffech eu gweld?[4] | 9 | 15 | 25 | 18 | 31 | 51 | | 37.5 | 62.5 |
| 25. A ydych yn credu bod darpariaethau'r Bil drafft sy'n ymwneud ag adolygu'r cynlluniau bwyd lleol yn ddigonol? Os na, pa newidiadau yr hoffech eu gweld? | 6 | 9 | 34 | 12 | 18 | 70 | | 40 | 60 |
| Diffiniad o 'gorff cyhoeddus' | | | | | | | | | |
| 27. A ydych yn cytuno â'r rhestr o bersonau y diffinnir eu bod yn 'gorff cyhoeddus' at ddibenion y Bil hwn? | 13 | 7 | 28 | 29 | 13 | 57 | | 67 | 33 |

[4] Ffigurau'n destun talgrynnu